

Cod Trefniadaeth Ysgolion

Ffurflen ymateb i'r ymgyngoriad

Eich enw: Rebecca Williams, Swyddog Polisi

Sefydliad (os yw'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn: rebecca@ucac.cymru / 01970 639950

Eich cyfeiriad:

UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 30 Medi 2017 i

Y Gangen Trefniadaeth Ysgolion a Derbyniadau
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu eu cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i:

e-bost: SchoolsManagementDivision3@wales.gsi.gov.uk

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno â'r diwygiadau yr awgrymir eu gwneud i'r Cod er mwyn adlewyrchu adborth a dysgu ar ôl tair blynedd o weithredu'r Cod?

Cytuno Anghytuno

Os na, dywedwch pam

Atebwn y cwestiynau ar y cynigion penodol isod, gan fynegi barn ar bob un yn unigol yn hytrach nag ymateb mewn modd cyffredinol i'r cwbl.

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i'w gwneud hi'n ofynnol cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar ddiwrnod ysgol?

Cytuno Anghytuno

Os na, dywedwch pam

Cytuno. Cytunwn yn ogystal â'r cyfnod o 42 diwrnod (6 wythnos) o gyfnod ymgynghori, a bod o leiaf 20 (4 wythnos) o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol.

Cwestiwn 3 - Ydych chi'n cytuno y dylid hysbysu ymgynghoreion bod y ddogfen ymgynghori ar gael; yn cynnwys y cyfeiriad gwe a bod copi caled ar gael ar gais.

Cytuno Anghytuno

Os na, dywedwch pam

Mae'r cynnig yn hollol resymol.

Cwestiwn 4 – Ydych chi'n cytuno bod **rhaidd** i'r rheini nad ydynt yn cynnal yr ymgynghoriadau eu hunain ystyried i ba raddau mae'r ymgynghoriad statudol a'r cynnig wedi'u cynnal yn unol â'r Cod?

Cytuno Anghytuno

Mae'n gwbl angenrheidiol fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r graddau y mae'r broses, a'r ymgynghoriad yn benodol, wedi cydymffurfio â'r Cod yn ogystal ag â unrhyw reolau neu reoliadau eraill.

Yn naturiol, mae angen i'r sawl sy'n rhoi'r cyfryw ystyriaeth fod yn annibynnol oddi ar y sawl sy'n cynnal yr ymgynghoriad neu'n llywio'r broses er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau, a sicrhau didueddrwydd.

Mi fyddai rhoi enghraifft o'r mathau o bersonau a allai ymgymryd â'r gwaith hwn wedi bod yn ddefnyddiol er mwyn dod i farn derfynol ar y mater. Mae 'rheini (sic) nad ydynt yn cynnal yr ymgynghoriadau eu hunain' yn gwbl benagored.

Nid oeddem yn gallu dod o hyd i'r adran yn y Cod diwygiedig arfaethedig oedd yn cyfeirio ar y gofyniad hwn.

Cwestiwn 5 – Ydych chi'n cytuno y dylid bod rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig?

Cytuno

Anghytuno

Os na, dywedwch pam.

Ydyn, ar y cyfan. Cytunwn yn sicr fod angen ystyriaeth fanwl, deg a chytbwys o'r materion cymunedol ac ieithyddol ehangach sy'n dod yn sgil cau ysgolion gwledig, ac sy'n cael effaith llawer fwy pellgyrhaeddol mewn cyd-destun gwledig nag mewn ardaloedd trefol.

Cytunwn yn ogystal â'r angen i sicrhau parhad i gyfleusterau cymunedol, hyd yn oed os yw'r ysgol yn cau.

Fodd bynnag, ni fyddem am weld gweithdrefnau fyddai'n ei gwneud yn anoddach i sefydlu 'ysgolion ardal' gwledig, yn enwedig pan fydd y cynlluniau hynny'n dod a buddsoddiad gwirioneddol o ran cyfleusterau i'r ardal, ac yn atgyfnerthu'r manteision a chyfleoedd addysgiadol.

Cwestiwn 6 – Ydych chi'n cytuno gyda'r set fanylach o weithdrefnau a gofynion y bydd rhaid eu dilyn wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig, ymgynghori ar y cynnig hwnnw a phenderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig hwnnw ai peidio?

Cytuno

Anghytuno

Os na, dywedwch pam.

Cytunwn â'r pwyslais ar roi ystyriaeth i ffedereiddio. Ond yn y cyd-destun hwnnw, byddem am bwysleisio manteision ffederasiwn 'caled', hynny yw, ble mae'r cyrff llywodraethu'n uno, i greu un ysgol ar sawl safle. Mae sefyllfa o ffederasiwn 'meddal' yn un sy'n creu baich gweinyddol annerbyniol i benaethiaid, sy'n gorfod gwasanaethu sawl corff llywodraethu, llunio sawl Cynllun Datblygu Ysgol, cael arolygiadau ar wahân gan Estyn, ac ymweliadau gan y consortiwm rhanbarthol, ac yn y blaen. Nid yw hynny'n gynaliadwy.

Rydym yn pryderu am elfennau o'r gofyniad i 'gynnal asesiad pellach o'r cynnig ac o bob un o'r opsiynau eraill a nodwyd yn y papur cynnig yn erbyn yr un materion' yn dilyn y cyfnod ymgynghori. Deallwn mai bwriad y cynnig hwn yw ail-ystyried y cynigion yng ngoleuni gwybodaeth a phwyntiau a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, tybiwn y byddai modd ychydig yn llai biwrocraidd, llai gweinyddol-feichus o sicrhau'r un canlyniad.

Mae mater arall yr awgrymwn y dylid rhoi sylw iddo, a hynny'n gynnar yn y broses. Yn aml, y rheswm y mae ysgolion gwledig sy'n gymharol fach eu maint yn colli niferoedd i'r pwynt o ddod yn broblematic ac yn destun cynigion statudol, yw nad ydynt yn gallu cynnig y gwasanaethau cofleidiol sy'n bosib eu cynnig mewn ysgolion mwy o faint neu mewn cyd-destun trefol. Hynny yw, y gallu i gynnig darpariaeth (efallai clwb brechwast) o, dyweder, 8.15 y bore er mwyn i rieni allu cyrraedd y gwaith mewn tref gyfagos erbyn 9 o'r gloch - a hynny'n ddyddiol. Felly hefyd ar gyfer darpariaeth ar ôl ysgol, er mwyn i rieni gallu casglu plant ar ôl 5 o'r gloch. Un ffactor pwysig arall yw'r angen i allu cynnig hanner diwrnodau o ofal plant ar gyfer y rheiny, yn 3 neu 4 oed, sy'n dechrau ar eu gyrfa ysgol drwy wneud hanner diwrnodau, a'u rhieni'n gweithio. Yn aml, mae rhieni'n penderfynu anfon eu plant i ysgolion mawr a/neu drefol am y rhesymau cwbl ymarferol hyn - ac felly mae cylch diefflig yn cychwyn ar gyfer yr ysgolion bach gwledig, sy'n colli rhagor o niferoedd, ac yn llai a llai tebygol o allu darparu gwasanaethau amgen a chofleidiol. Awgrymwn, os mai niferoedd yw'r prif bryder mewn perthynas ag ysgol wledig, bod angen i'r Awdurdod Lleol ystyried beth ellid ei wneud i ddarparu neu gefnogi gwell gwasanaethau cofleidiol.

Cwestiwn 7 – Nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn berthnasol i ysgolion bach â llai na 10 disgybl ond, serch hynny, mae'n rhaid i'r sawl sy'n gwneud y cynnig ystyried y ffactorau ym Mhennod 1 y Cod.

Ydych chi'n cytuno y dylai fod gofyn hefyd i'r sawl sy'n gwneud y cynnig ddilyn y set fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig ysgol wledig os yw'r ysgol fach wedi'i dynodi'n ysgol wledig hefyd?

Cytuno Anghytuno

Os na, dywedwch pam.

Nid ydym o'r farn fod ysgol â llai na 10 o blant yn gynaliadwy, ac ni fyddem am wneud y broses o gau ysgol o'r fath yn fwy beichus na hirfaith nag ydyw ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, cytunwn â'r angen i ystyried effeithiau cymunedol ac ieithyddol cau ysgol o'r fath, ac i sicrhau nad oes anfantais ieithyddol (nac unrhyw anfantais arall) i'r plant wrth drosglwyddo i ysgol gyfagos, na cholled o ran asedau neu gyfleusterau cymunedol. Mae'r dysgwyr, teuluoedd a chymunedau hynny'n haeddu'r un lefel o barch â chymunedau eraill.

Cwestiwn 8 – Ydych chi'n cytuno gyda chynigion i ddynodi rhai ysgolion yn rhai gwledig at ddibenion y rhagdybiaeth yn erbyn cau a'r rhestr o ysgolion yn Atodiad f?

Os na, nodwch pa ysgolion na ddylid eu cynnwys a pha ysgolion eraill y dylid eu cynnwys ynghyd â'r rhesymau.

Cytuno Anghytuno

Nodwn na ddarparwyd digon o wybodaeth yn y ddogfen ymgynghorol ynghylch yr

'opsiwn cyntaf' a ystyriwyd, sef 'dynodi ysgolion gwledig yn seiliedig ar nodweddion neu feini prawf penodol i'r ysgol.' Ni roddwyd enghreifftiau o'r mathau o nodweddion neu feini prawf posib felly teimla UCAC na fu'n bosib ffurfio barn yn ei gylch. Roedd y ddogfen wedi gwrthod yr opsiwn heb ymhelaethu na rhoi cyfle am ystyriaeth gytbwys.

O ran 'opsiwn 2', mae'r esboniad yn y ddogfen ymgynghorol yn un sy'n anodd iawn i fynd i'r afael ag e i unrhyw un nad yw'n arbenigo yn y maes, ac mi allai'r diffyg tryloywder hynny fod yn broblematic.

Fodd bynnag, o edrych ar y rhestr yn Atodiad F, mae'n ymddangos fod defnyddio meini prawf opsiwn 2, yn gyffredinol, yn arwain at restr synhwyrol o ran y mathau a niferoedd o ysgolion.

Cwestiwn 9 – Ydych chi'n cytuno gyda'r diwygiad arfaethedig i'r adran ar leoedd gwag i bwysleisio er bod gofyn i awdurdod lleol reoli lleoedd gwag, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu cau ysgolion, ac y dylent ystyried dulliau amgen o wneud hynny?

Cytuno Anghytuno

Os na, dywedwch pam.

Mae UCAC o'r farn fod y pwyslais hyd yma ar 'leoedd gwag' wedi bod yn ffuantus (*disingenuous*) ac – ar y gorau - yn gamarweiniol. Nid yw lleoedd gwag yn eu hunain yn broblem; maent yn adlewyrchiad, fel arfer, o'r ffaith fod llawer o'n hysgolion yn dal i fodoli mewn adeiladau a godwyd mewn cyfnod gwahanol iawn i'n cyfnod ni, pan roedd llawer fawr iawn fwy o blant ym mhob teulu ac ym mhob pentref, ac ni fyddai plant yn gadael eu pentref ar gyfer derbyn addysg.

Mae'r broblem, mewn gwirionedd, yn ymwneud yn fwy â niferoedd absoliwt mewn ysgol unigol, ac effaith hynny ar adnoddau'r Awdurdod Lleol yn ehangach, yn enwedig felly gofynion o ran niferoedd staff mewn perthynas â niferoedd y plant.

Rydym yn croesawu felly'r diwygiad arfaethedig sy'n lleihau'r pwyslais ar ddefnyddio ffigyrau lleoedd gwag wrth ystyried trefniadaeth ysgolion. Yn wir, byddem yn argymhell mynd ymhellach i greu gwell cydbwysedd ac ystyriaeth i faterion sy'n wirioneddol bwysig - yn ogystal ag ail-ystyriaeth i Ganllawiau Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru (021/2011).

Cwestiwn 10 – Hoffem wybod eich barn ar a fydd y set fanwl o weithdrefnau a gofynion y bydd angen i bawb sy'n cyflwyno cynnig i gau ysgolion gwledig eu dilyn yn faich ychwanegol ar yr awdurdod lleol.

Os ydych chi'n credu y byddai baich ychwanegol ar yr awdurdod lleol, beth fydd natur y baich hwnnw yn eich barn chi? Rhowch fanylion yr effaith, yn cynnwys amser a chost.

Fel y dywedwyd mewn ateb i Gwestiwn 6, rydym yn pryderu am elfennau o'r gofyniad i 'gynnal asesiad pellach o'r cynnig ac o bob un o'r opsiynau eraill a nodwyd yn y papur cynnig *yn erbyn yr un materion*' yn dilyn y cyfnod ymgynghori. Deallwn mai bwriad y cynnig hwn yw ail-ystyried y cynigion yng ngoleuni gwybodaeth a phwyntiau a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, tybiwn y byddai

modd ychydig yn llai biwrocraataidd, llai gweinyddol-feichus o sicrhau'r un canlyniad.

Cwestiwn 11 – Hoffem glywed eich barn ar effaith rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig ar y Gymraeg, ac yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) trin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Mi allai'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig, mewn rhai achosion, ddiogelu ysgolion ble mae'r Gymraeg yn iaith naturiol, gymunedol. Yn sicr, mi fydd yn sicrhau bod hynny'n ystyriaeth.

Cwestiwn 12 – Esboniwch hefyd sut y gellid ffurfio neu newid y polisi sydd mewn golwg, yn eich barn chi, er mwyn:

- i) cael effaith gadarnhaol neu fwy o effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg
- ii) peidio â chael effaith negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Gweler pwyntiau isod mewn perthynas â chwestiwn 13, dan y penawdau Ffedereiddio; Newidiadau a reoleiddir; Aseidiadau effaith ar y Gymraeg; a Phwyllgor penderfynu lleol.

Cwestiwn 13 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt:

Materion staffio

Teimlwn nad oes digon o sylw yn cael ei roi yn y Cod (presennol na diwygiedig) i faterion staffio yn sgil ad-drefnu. Dylai fod yr effeithiau tebygol ar staffio yn fater i'w hystyried ym mhob cam o'r broses. Yn ogystal, dylai bod gofyniad i wneud darpariaethau ynghylch cyfleoedd i adleoli mewn achosion o leihau neu ddileu darpariaeth, neu o gau ysgol.

Ffedereiddio

Fel y dywedwyd uchod, croesawn y pwyslais ar ystyried ffedereiddio fel opsiwn posib yn hytrach na chau ysgol wledig. Fodd bynnag, hoffem sicrhau mai ffederasiynau caled sydd dan sylw a hynny am resymau llwyth gwaith afresymol ar benaethiaid sy'n dod yn sgil ffederasiynau meddal.

Yn ogystal, rhaid sicrhau nad oes modd cyflwyno unrhyw gynigion i ffedereiddio neu uno ysgolion a fyddai'n gwanhau'r ddarpariaeth Gymraeg, neu'n amharu ar ethos Cymraeg unrhyw un o'r ysgolion unigol.

Ysgolion fel adnodd cymunedol

Er y cytunwn yn llwyr â'r pwyslais ar ystyried adeiladau ysgolion fel adnoddau cymunedol pwysig, ac y dylid rhoi ystyriaeth i wneud defnydd llawnach ohonynt gan gynnwys cydleoli gwasanaethau, rhaid sicrhau nad yw unrhyw un o'r opsiynau hyn yn golygu llwyth gwaith a chyfrifoldebau ychwanegol i'r pennaeth. Gallai fod perygl fod angen i bennaeth fod ar gael i agor neu gau'r ysgol ar adegau na fyddai gofyn iddi/o fod yno fel arall, a bod goblygiadau o ran iechyd a diogelwch, diogelu plant, cyfrinachedd, glendid/hylendid, neu yswiriant yn sgil defnydd gwahanol i'r adeilad.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Tybiwn y byddai'n briodol erbyn hyn i newid unrhyw gyfeiriadau at Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) i Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Newidiadau a reoleiddir

Yn Adran 2.3 Newidiadau a Reoleiddir, teimlwn, yn yr ail dabl, fod y trothwy ar gyfer gwneud cynigion yn afresymol o uchel yn y rhes gyntaf, h.y. gellir lleihau o ddysgu pum pwnc i ddau bwnc yn y Gymraeg mewn ysgol uwchradd heb yr angen am gynigion. Tybiwn mai mewn rheoliadau y pennir y gofynion hyn, ond cymrwn y cyfle i fynegi ein barn rhag ofn y bydd unrhyw diwygio ar y rheoliadau yn y dyfodol agos.

Asesiadau effaith ar y Gymraeg

Awgrymwn ychwanegu rai pwyntiau at y rhestr:

- deilliannau ieithyddol (nid safonau yn unig) h.y. beth yw lefel rhuglder y plant a'u gallu i siarad yr iaith
- yr ysgolion uwchradd (a'u categori iaith a deilliannau ieithyddol o ran rhuglder) a fwydir gan yr ysgolion cynradd y cyfeirir atynt yn y cynigion, a chanrannau'r plant sy'n mynd i wahanol ysgolion uwchradd

Pwyllgor penderfynu lleol

Mae angen sicrhau bod y lefel briodol o ddealltwriaeth ac arbenigedd ar bwyllgor o'r fath mewn perthynas â materion ieithyddol; rhaid sicrhau fod aelod o'r pwyllgor yn gyfarwydd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdod(au) Lleol perthnasol, yn ogystal â dogfennau eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg ar lefel genedlaethol a lleol.

Eglurder geirfa

Teimlwn yn gryf fod y Cod yn or-gymhleth ac yn anodd ei ddilyn. Mae hynny am fod:

- a) nad yw trefn adrannau'r Cod yn gwbl resymegol
- b) geirfa'n cael ei ddefnyddio mewn modd amwys neu ddryslyd
- c) llawer o ail-adrodd (nad yw'n angenrheidiol)

Manylwn ar rain yn eu tro:

a) Trefn adrannau'r Cod

Teimlwn fod angen gwahaniaethu'n gliriach drwy gydol y ddogfen rhwng elfennau sy'n perthyn i'r gwahanol gamau yn y broses a'u trefnu'n gronolegol yn ôl y camau hyn yng ngwahanol adrannau'r ddogfen.

Rydym o'r farn y byddai'n fwy rhesymegol i roi'r adran 'Newidiadau y mae angen cynigion ar eu cyfer' yn gyntaf, gyda 'Datblygu ac ystyried cynigion' i ddilyn unwaith y dyfernir a oes angen cynigion yn y lle cyntaf.

Mae Adran 1, er ei fod yn ymwneud â 'Datblygu ac ystyried cynigion', yn 1.15 yn ymdrin â 'ffactorau i'w hystyried wrth gymeradwyo/penderfynu ar gynigion trefniadaeth ysgolion' ar ôl y broses ymgynghori; oni fyddai'n llai dryslyd cadw materion o'r fath ar gyfer Adran 5 sy'n delio â 'Penderfynu ar gynigion'; un enghraifft yn unig yw hyn, ac mae'r Cod yn frith ohonynt.

Yn y Siart Llif yn atodiad A (sy'n hollol greiddiol o ran gallu dirnad camau'r broses) oni

fyddai Cam 1 (cyfeirio at y rhestr o ysgolion gwledig) yn gwneud fwy o synnwyr fel Cam 2?

b) **Geirfa**

Mae'r defnydd o'r ymadroddion '**llunio cynigion**', '**cyhoeddi cynigion**' a '**chymeradwyo cynigion**' oll yn amwys ac yn gallu peri dryswch. Gellid eu deall yn nhermau llunio/cyhoeddi/cymeradwyo cynigion ar gyfer y cyfnod ymgynghori, neu yn nhermau llunio/cyhoeddi/penderfynu cynigion *statudol* yn dilyn y cyfnod ymgynghori. Yn hytrach na 'cyhoeddi cynigion statudol', beth am gyfeirio at gyhoeddi hysbysiad statudol, neu at gyfnod gwrthwynebu).

Mi fyddai gwahaniaethu'n gliriach o ran geirfa rhwng y cyfnodau cwbl wahanol hyn yn creu dogfen a phroses llawer rhyddach i'w dilyn a'u gweinyddu'n gywir.

c) **Ail-adrodd**

Pan fydd y rhestrau o faterion i'w hystyried neu i'w cynnwys mewn dogfennau yr un fath ar wahanol gyfnodau o'r broses, teimlwn y byddai'n briodol i gyfeirio nôl at y rhestr wreiddiol yn hytrach nag ailadrodd sawl gwaith drosodd; mae'r un peth yn wir am y rhestrau o bobl/cyrff y mae'n ofynnol i roi gwybod iddynt fod dogfennau ar gael ar wahanol gyfnodau o'r broses

Y ddogfen ymgynghorol

Hoffem fynegi siom yn y ffordd mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i gyflwyno. Mi fyddai wedi bod yn llawer fawr iawn fwy hwylus i ymatebwyr petai'r newidiadau i'r Cod diwygiedig wedi'u dangos yn gliriach – naill ai yn nhestun y Cod ei hun, neu wrth gyfeirio at rifau paragraffau penodol yn y ddogfen ymgynghorol. Yn ogystal, teimlwn nad oedd y cynigion yn y ddogfen ymgynghorol yn glir bob tro, o ran eu geiriad, ac o ran diffyg enghreifftio.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennyh i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

